**Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**
**Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018 - 2033**

Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004

Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Diwygio 2015)

# Datganiad Mabwysiadu

13 Mawrth 2024

## 1. Cyflwyniad

1.1 Yn unol â gofynion Rheoliad 25(2) yn Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd) ("**Rheoliadau 2005**"), mae'n ofynnol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol (**ACLl**) gyhoeddi 'datganiad mabwysiadu' yn dilyn mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol (**CDLl**). Hefyd, ac yn unol â gofynion Rheoliad 16 yn Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 ("**Rheoliadau 2004**"), rhaid i'r ACLl gyhoeddi 'datganiad ar ôl mabwysiadu' hefyd.

1.2 Cynhyrchwyd y ddogfen hon er mwyn ateb gofynion Rheoliadau 2005 a Rheoliadau 2004 trwy Ran 1 a Rhan 2, yn y drefn honno, isod.

## 2. Rhan 1: Datganiad Mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Newydd ("Datganiad Mabwysiadu") – Gofynion Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd).

2.1 Cafodd Cynllun Datblygu Lleol Newydd (**CDLlN**) Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 2018-2033 ei fabwysiadu a daeth yn weithredol ar 13 Mawrth 2024. Mae'n disodli Cynllun Datblygu Lleol (**CDLl**) mabwysiedig blaenorol Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 2006-2021.

2.2 Y CDLlN yw'r cynllun datblygu (**Cynllun**) ar gyfer Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a hwn fydd yn sail i benderfyniadau ynglŷn â chynllunio defnydd tir yn yr ardal. Mae'n nodi polisïau allweddol a dyraniadau defnydd tir a fydd yn trefnu dyfodol Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac yn rhoi arweiniad ar gyfer datblygu hyd at 2033.

2.3 Mae'r CDLlN a fabwysiadwyd, Adroddiad yr Arolygydd sy'n derfynol, yr Adroddiad Terfynol ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (**AoG**) (sy'n ymgorffori'r Asesiad Amgylcheddol Strategol) a'r Datganiad Mabwysiadu hwn ar gael i'w harchwilio yn ystod oriau agor arferol yn y lleoliadau canlynol:

- Derbynfa CBSP, Y Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB (Llyfrgell Symudol);
- Llyfrgell Abercynffig, Heol y Llyfrau, Abercynffig, CF32 9PT;
- Llyfrgell Betws, Canolfan Fywyd Betws, Heol Betws, Betws, CF32 8PT;
- Llyfrgell Pen-y-bont ar Ogwr, Canolfan Fywyd Pen-y-bont ar Ogwr, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4AH
- Llyfrgell Maesteg, North's Lane, Maesteg, CF34 9AA;
- Llyfrgell Cwm Ogwr, Canolfan Fywyd Dyffryn Ogwr, Aber Road, Cwm Ogwr, CF32 7AJ
- Llyfrgell Pen-coed, Heol Penybont, Pen-coed, CF35 5RA;

- Llyfrgell Pontycymer, Canolfan Fywyd Cwm Garw, Iard yr Hen Orsaf, Pontycymer, CF32 8ES;
- Llyfrgell Porthcawl, Church Place, Porthcawl, CF36 3AG;
- Llyfrgell Y Pîl, Canolfan Fywyd Y Pîl, Helig Fan, Y Pîl, CF33 6BS;
- Llyfrgell Sarn, Canolfan Dysgu Gydol Oes Sarn, Merfield Close, Sarn, CF32 9SW;
- Llyfrgell Llynfi, Canolfan Chwaraeon Maesteg, Hen Safle'r Efail, Nant-y-Crynwyd, Maesteg, CF34 9EB.

2.4 Mae'r CDLIN a fabwysiadwyd a'r dogfennau cysylltiedig a restrir dan baragraff 2.3 uchod hefyd ar gael i'w gweld ar wefan y Cyngor yn: https://www.bridgend.gov.uk/residents/planning-and-building-control/development-planning/replacement-bridgend-local-development-plan-2018-to-2033/.

2.5 Gall rhywun sy'n teimlo iddo/iddi gael cam gan y CDLIN ac sy'n dymuno cwestiynu ei ddilysrwydd ar y sail nad yw o fewn y pwerau a roddir gan Ran 6 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ("**Deddf 2004**"), neu na chydymffurfiwyd ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf honno neu unrhyw reoliad a wnaed dan y Ddeddf honno mewn perthynas â mabwysiadu'r CDLIN, gyflwyno cais, o fewn chwe wythnos i'r dyddiad a nodir ar y Datganiad Mabwysiadu hwn, i'r Uchel Lys dan Adran 113 o Ddeddf 2004.

## 3. Rhan 2: Datganiad Ar Ôl Mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Newydd ("Datganiad Ar Ôl Mabwysiadu") – Gofynion Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004

3.1 Mae Adran 62(6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor arfarnu cynaliadwyedd y CDLIN trwy Arfarniad o Gynaliadwyedd (**AoG**). Mae'r AoG yn asesiad o effeithiau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol CDLIN a gynhelir o ddechrau'r broses o greu'r cynllun i sicrhau y gwneir penderfyniadau sy'n gyson ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Mae'r AoG yn broses systematig ac ailadroddol. Mae'n adnabod i ba raddau y bydd rhoi'r CDLIN ar waith yn cyflawni'r amcanion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd y gellir eu defnyddio i ddiffinio datblygu cynaliadwy ac yn adrodd ar hynny. Mae hefyd yn adnabod cyfleoedd i wella perfformiad y CDLIN mewn perthynas â'r amcanion hyn.

3.2 Rhaid i'r ACLl hefyd gydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol (**AAS**) (2001/42/EC), sy'n ei gwneud yn ofynnol cynnal AAS o rai cynlluniau a rhaglenni penodol sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd. Mae Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 yn trawsosod y gofyniad hwn yng nghyfraith Cymru ac yn ei gwneud yn ofynnol paratoi '*Adroddiad Amgylcheddol'* sy'n nodi ystyriaeth i effeithiau sylweddol tebygol. Mae AAS yn broses systematig ar gyfer gwerthuso canlyniadau amgylcheddol cynlluniau a rhaglenni i sicrhau bod materion amgylcheddol yn cael eu hintegreiddio a'u hasesu ar y cyfle cynharaf yn y broses benderfynu. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru'n cynghori y dylai AoG ac AAS ar gyfer cynlluniau datblygu gael eu cynnal gyda'i gilydd; gyda'r AoG yn ymgorffori gofynion AAS trwy un broses arfarnu ailadroddol. Felly dylid cymryd bod y term 'AoG' y cyfeirir ato drwy'r Datganiad hwn yn cynnwys gofynion AAS, sy'n gweithredu fel yr Adroddiad Amgylcheddol statudol.

3.3 Cynhaliwyd Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (**ARhC**) o'r CDLIN hefyd, yn unol â Rheoliad 63 yn Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd). Cynhaliwyd yr ARhC i benderfynu a allai unrhyw gynlluniau, polisïau neu ddyraniadau safleoedd yn y CDLIN, boed yn unigol neu wrth eu hystyried yn gronnus, arwain at unrhyw effeithiau sylweddol tebygol ar gyfanrwydd Safleoedd Ewropeaidd (sydd bellach yn rhan o'r Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol) yng nghyd-destun eu hamcanion cadwraeth. Dilynodd hwn broses ailadroddol hefyd ac fe'i cynhaliwyd ochr yn ochr â phroses yr AoG. Felly mae canfyddiadau'r ARhC wedi goleuo'r gwaith i baratoi'r CDLIN a'r AoG. Roedd yr asesiad hwn yn cyd-fynd â'r CDLIN Adneuo ac adroddwyd arno ar wahân. Nid yw datblygu'r ARhC ar gyfer y CDLIN yn eithrio cynigion datblygu unigol rhag gorfod cael ARhC prosiect benodol trwy'r broses rheoli datblygu lle y bo'n angenrheidiol.

3.4 Felly mae'r gwaith i baratoi'r CDLIN wedi integreiddio proses yr AoG, yr AAS a'r ARhC fel elfennau annatod o bob rhan o baratoi'r cynllun gan gynnwys casglu tystiolaeth, adnabod materion, pennu amcanion, gwerthuso opsiynau ac ymgynghori.

3.5 Mae'r adran hon o'r Datganiad Ar Ôl Mabwysiadu'n disgrifio sut y mae proses yr AoG wedi dylanwadu ar y modd y bwriwyd ymlaen â CDLIN Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a sut y mae ystyriaethau amgylcheddol ac ymatebion ymgynghori wedi cael eu hystyried yn ystod gwaith i ddatblygu'r Cynllun. Mae hefyd yn amlinellu pam y bwriwyd ymlaen â'r CDLIN Adneuo yng ngoleuni dewisiadau eraill rhesymol ac yn amlygu'r mesurau a ddatblygwyd i dracio effeithiau'r Cynllun.

3.6 Yn unol â Rheoliad 16(4) Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004, mae'r datganiad hwn yn darparu'r wybodaeth ganlynol:

a) Sut y mae ystyriaethau amgylcheddol wedi cael eu hintegreiddio o fewn y Cynllun;
b) Sut y mae'r Adroddiad Amgylcheddol (sydd wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad ar yr AoG) wedi cael ei ystyried;
c) Sut y mae pob barn a fynegwyd mewn perthynas â'r ymgyngoriadau ynghylch y cynllun a'r Adroddiad Amgylcheddol (sydd wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad ar yr AoG) wedi cael eu hystyried;
d) Sut y mae canlyniadau unrhyw ymgynghoriad trawsffiniol wedi cael eu hystyried;
e) Y rhesymau dros ddewis y Cynllun fel y'i mabwysiadwyd, yng ngoleuni dewisiadau eraill rhesymol yr ymdriniwyd â hwy; ac
f) Y mesurau a fydd yn cael eu cymryd i fonitro effeithiau amgylcheddol sylweddol rhoi'r Cynllun ar waith.

3.7 Ymdrinnir â phob un o'r gofynion uchod yn ddilyniannol isod. Dylid nodi bod gwybodaeth sylweddol mewn perthynas â'r materion hyn wedi'i hamlinellu mewn dogfennau a gyhoeddwyd trwy gydol y broses o baratoi'r CDLIN. Mae'r rhain yn cynnwys yr AoG Llawn ar gyfer y CDLIN Adneuo (SD90) a'r AoG [sgrinio]: Adendwm Newidiadau Materion yn Codi (**NMCau**) (NMC2). Fe wnaeth yr olaf o'r rhain sgrinio'r holl NMCau perthnasol i'r CDLIN Adneuo i benderfynu a oeddent yn dwyn goblygiadau ar gyfer AoG Llawn y Cynllun Adneuo, 2021 (SD90). Cyhoeddwyd y canlyniad sgrinio fel rhan o'r Ymgynghoriad ynghylch NMCau (sylwer, yn ddiweddarach daeth y NMCau'n argymhellion terfynol yn Adroddiad yr Arolygydd heb newid pellach). Mae'r Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol (SD29) a'r Adroddiad Ymgynghori Adneuo (SD4) hefyd yn cyfeirio at y newidiadau a wnaed i'r CDLIN yn ystod y broses o greu'r cynllun. Nid yw'r Datganiad Ar Ôl Mabwysiadu hwn yn ceisio dyblygu'r deunydd hwn. Yn hytrach, ac yn unol â pharagraff 6.63 yn Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Llywodraeth Cymru

(Rhifyn 3, Mawrth 2020), mae'r Datganiad hwn yn croesgyfeirio'n briodol at ddogfennau perthnasol o'r fath.

## 3.8 Sut y mae ystyriaethau amgylcheddol wedi cael eu hintegreiddio o fewn y Cynllun

3.8.1 Mae'r CDLIN wedi cael AAS er mwyn ystyried effaith bosibl y Cynllun ar yr amgylchedd ac i wella perfformiad amgylcheddol y Cynllun.

3.8.2 Mae AoG ac AAS yn rhannu ffocws cyffredin ar asesu perfformiad amgylcheddol a pherfformiad ehangach o ran cynaliadwyedd ac felly fe'u cynhaliwyd ac fe adroddwyd arnynt gyda'i gilydd yn yr Adroddiad AoG. Mae'r broses wedi bod yn rhan annatod o baratoi'r CDLIN; gan sicrhau ei fod yn hybu datblygu cynaliadwy trwy ymgorffori amcanion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd.

3.8.3 Mae'r AoG wedi rhedeg ochr yn ochr â datblygu'r CDLIN, o gam cynharaf y broses o greu'r cynllun tan ei fabwysiadu. Mae proses yr AoG wedi cynnwys nifer o gamau ac adroddiadau, sy'n dangos y broses adborth ailadroddol rhwng creu'r cynllun a'r AoG. Wrth i'r Cynllun symud ymlaen trwy'r camau paratoi, cafodd y polisïau a'r cynigion eu hasesu yn erbyn amcanion yr AoG ac fe gynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch yr asesiadau hynny. Mae hyn wedi ei gwneud yn bosibl integreiddio ystyriaethau o ran cynaliadwyedd o fewn y CDLIN a'r broses creu cynllun. Mae Tabl 1 isod yn dangos y camau ym mhroses y CDLIN a chamau cyfatebol yr AoG a'r ARhC, ynghyd â dyddiadau'r camau ymgynghori.

**Tabl 1: Camau Proses y CDLIN, AoG, AAS ac ARhC ac Ymgynghori**

| Cam yr AoG, AAS neu ARhC | Cam y CDLIN | Diben | Graddfa Amser Ymgynghori |
|---|---|---|---|
| **SD89 Adroddiad Cwmpasu'r AoG, gan gynnwys Penderfyniad Sgrinio AAS, 2018** | Cyn Adneuo | Mae'r Adroddiad Cwmpasu hwn yn amlinellu'r dull arfaethedig o gynnal AoG y CDLIN, sy'n ymgorffori'r AAS. Hwn yw cam cyntaf y broses AoG i adnabod, asesu ac ymdrin ag unrhyw effeithiau sylweddol tebygol ar yr amgylchedd o | Cynhaliwyd ymgynghoriad wedi'i dargedu â rhanddeiliaid dros gyfnod o bum wythnos, a ddechreuodd ar 23 Gorffennaf ac a ddaeth i ben ar 27 Awst 2018, gan gynnwys Cyrff Ymgynghori'r AAS a rhanddeiliaid eraill. |

| Cam yr AoG, AAS neu ARhC | Cam y CDLIN | Diben | Graddfa Amser Ymgynghori |
|---|---|---|---|
| | | ganlyniad i'r CDLIN a oedd yn dod i'r amlwg. Mae'r Adroddiad Cwmpasu hefyd yn ceisio barn Awdurdodau Ymgynghori'r AAS ynglŷn â phenderfyniad sgrinio AAS drafft i ateb gofynion gweithdrefnol ac i gadarnhau bod angen ymgorffori AAS o fewn yr AoG. | Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus pellach ynghylch yr Adroddiad Cwmpasu hwn fel rhan o'r ymgynghoriad ynghylch y Strategaeth a Ffefrir, rhwng 30 Medi ac 8 Tachwedd 2019. |
| **SD75b Adroddiad Sgrinio ARhC Cychwynnol, 2018** | Cyn Adneuo | Mae'r Adroddiad Sgrinio ARhC Cychwynnol hwn yn ceisio barn Corff Cadwraeth Natur Statudol (**CCNS**) Cymru, sef Cyfoeth Naturiol Cymru, ynglŷn â'r rhestr arfaethedig o Safleoedd Ewropeaidd (sydd bellach yn rhan o'r Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol) i fwrw ymlaen â hi ar gyfer ARhC sy'n gydymffurfio â'r gyfraith o'r Adolygiad o CDLI Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'n ofynnol bod yr ARhC yn asesu a fyddai | Cynhaliwyd ymgynghoriad wedi'i dargedu gyda rhanddeiliaid dros gyfnod o bum wythnos, a ddechreuodd ar 23 Gorffennaf ac a ddaeth i ben ar 27 Awst 2018, gan gynnwys Cyrff Ymgynghori'r AAS a rhanddeiliaid eraill.<br><br>Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus pellach ynghylch yr Adroddiad Sgrinio ARhC Cychwynnol hwn fel rhan o'r ymgynghoriad ynghylch y Strategaeth a Ffefrir, |

| Cam yr AoG, AAS neu ARhC | Cam y CDLIN | Diben | Graddfa Amser Ymgynghori |
|---|---|---|---|
| | | unrhyw effeithiau sylweddol tebygol o ganlyniad i'r CDLIN ar unrhyw safleoedd o'r fath. | rhwng 30 Medi ac 8 Tachwedd 2019. |
| **SD87 Adroddiad Cychwynnol ar yr AoG/AAS– Strategaeth a Ffefrir (AoG Safleoedd Ymgeisiol, 2019** | Cyn Adneuo | Mae'r Adroddiad Cychwynnol hwn ar yr AoG/AAS yn cyfrannu at yr AoG y CDLIN a oedd yn dod i'r amlwg trwy gyflwyno canfyddiadau asesiad desg cymesur a gynhaliwyd mewn perthynas â safleoedd ymgeisiol a hyrwyddwyd trwy ymgynghoriad Galwad am Safleoedd a gynhaliwyd yn hydref 2018 a dyraniadau presennol yn CDLI mabwysiedig Pen-y-bont ar Ogwr (2013) a oedd yn cael eu hystyried ar gyfer eu hailddyrannu yn y CDLIN a oedd yn dod i'r amlwg fel safleoedd treigl posibl. | Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch yr Adroddiad Cychwynnol hwn ar yr AoG/AAS fel rhan o'r ymgynghoriad ynghylch y Strategaeth a Ffefrir, rhwng 30 Medi ac 8 Tachwedd 2019. |
| **SD88 AoG Dogfennau Cyn Adneuo (Strategaeth a** | Cyn Adneuo | Diben yr Adroddiad AoG hwn yw darparu canfyddiadau AoG, a oedd yn ymgorffori AAS, ar gyfer | Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch yr Adroddiad AoG hwn fel rhan o'r |

| Cam yr AoG, AAS neu ARhC | Cam y CDLIN | Diben | Graddfa Amser Ymgynghori |
|---|---|---|---|
| **Ffefrir y CDLIN), 2019** | | cynigion o sylwedd yn Nogfennau Cyn Adneuo'r CDLIN, h.y. y Strategaeth a Ffefrir a Phapurau Cefndir cysylltiedig. Mae'r Adroddiad AoG hwn yn ymateb i ofynion statudol perthnasol, yn ystyried esblygiad y CDLIN a oedd yn dod i'r amlwg hyd yma ac yn cyflwyno asesiad o effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol ac effeithiau sylweddol tebygol ehangach o ran cynaliadwyedd o ganlyniad i'r Dogfennau Cyn Adneuo. | ymgynghoriad ynghylch y Strategaeth a Ffefrir, rhwng 30 Medi ac 8 Tachwedd 2019. |
| **SD75a Adroddiad Sgrinio'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Cyn Adneuo, 2019** | Cyn Adneuo | Diben yr Adroddiad Cynefinoedd hwn yw dogfennu cam ffurfiol cyntaf proses yr ARhC, sef canfod a fyddai unrhyw effeithiau sylweddol tebygol ar Safleoedd Ewropeaidd perthnasol (sydd bellach yn rhan o'r Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol) o ganlyniad i CDLIN Pen-y-bont ar Ogwr a oedd yn dod i'r | Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch yr Adroddiad Cynefinoedd hwn fel rhan o'r ymgynghoriad ynghylch y Strategaeth a Ffefrir, rhwng 30 Medi ac 8 Tachwedd 2019. |

| Cam yr AoG, AAS neu ARhC | Cam y CDLIN | Diben | Graddfa Amser Ymgynghori |
|---|---|---|---|
| | | amlwg, a oedd ar y cam hwn yn cynnwys y Strategaeth a Ffefrir. | |
| **SD90 AoG Llawn Cynllun Adneuo'r CDLIN, 2021** | Adneuo | Diben yr adroddiad AoG Llawn hwn yw darparu canfyddiadau AoG, a oedd yn ymgorffori AAS, o'r cynigion o sylwedd a oedd wedi'u nodi yn Nogfennau Adneuo'r CDLIN, h.y. y Cynllun Adneuo a Phapurau Cefndir cysylltiedig. Mae'r Adroddiad AoG Llawn hwn yn ymateb i ofynion statudol perthnasol, yn ystyried esblygiad y CDLIN hyd yma ac yn cyflwyno asesiad o effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol ac effeithiau sylweddol tebygol ehangach o ran cynaliadwyedd o ganlyniad i'r Dogfennau Adneuo. | Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch yr Adroddiad AoG Llawn hwn fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Cam Adneuo, rhwng 1 Mehefin a 27 Gorffennaf 2021. |
| **SD75 ARhC o Gynllun Adneuo'r CDLIN, 2021** | Adneuo | Diben yr Adroddiad ARhC hwn yw dogfennu ail gam y broses ARhC hon, sef asesiad priodol o Gynllun Adneuo'r CDLIN ac unrhyw effeithiau sylweddol tebygol ar | Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch yr Adroddiad ARhC hwn fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Cam Adneuo, rhwng 1 Mehefin a 27 Gorffennaf 2021. |

| Cam yr AoG, AAS neu ARhC | Cam y CDLIN | Diben | Graddfa Amser Ymgynghori |
|---|---|---|---|
| | | gyfanrwydd Safleoedd Ewropeaidd (sydd bellach yn rhan o'r Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol) yng nghyd-destun eu hamcanion cadwraeth. | |
| **MAC 2 AoG: Adendwm NMCau, 2023** | NMCau | Mae'r Adendwm NMCau (2) hwn yn ystyried y NMCau i'r CDLIN Adneuo. Mae'n sgrinio'r holl newidiadau perthnasol i benderfynu a ydynt yn dwyn unrhyw oblygiadau ar gyfer canfyddiadau'r AoG ar y Cam Adneuo yn 2021. | Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch yr [Adroddiad] Adendwm NMCau (2) hwn fel rhan o'r ymgynghoriad ynghylch Newidiadau Materion yn Codi, rhwng 31 Gorffennaf ac 11 Medi 2023. |
| **MAC 3 ARhC: Adendwm NMCau, 2023** | NMCau | Mae'r Adendwm NMCau (3) hwn yn ystyried NMCau i'r CDLIN Adneuo. Mae'n sgrinio'r holl newidiadau perthnasol i benderfynu a ydynt yn newid casgliadau ARhC 2021. | Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch yr Adroddiad Adendwm NMCau (3) hwn fel rhan o'r ymgynghoriad ynghylch Newidiadau Materion yn Codi, rhwng 31 Gorffennaf ac 11 Medi 2023. |
| **Datganiad Ar Ôl Mabwysiadu / AoG Terfynol y CDLIN** | Mabwysiadu | Mae'r Datganiad Ar Ôl Mabwysiadu hwn (AoG Terfynol) yn disgrifio sut y mae proses yr AoG wedi dylanwadu ar y modd | Mabwysiadu'r CDLIN 13 Mawrth 2024 |

| Cam yr AoG, AAS neu ARhC | Cam y CDLIN | Diben | Graddfa Amser Ymgynghori |
|---|---|---|---|
| | | y bwriwyd ymlaen â'r CDLIN a sut y mae ystyriaethau amgylcheddol ac ymatebion ymgynghori wedi cael eu hystyried yn ystod gwaith i ddatblygu'r Cynllun. Mae hefyd yn amlinellu pam y bwriwyd ymlaen â'r CDLIN Adneuo yng ngoleuni dewisiadau eraill rhesymol ac yn amlygu'r mesurau a ddatblygwyd i dracio effeithiau'r Cynllun. | |

### 3.9 Sut y mae'r Adroddiad Amgylcheddol (o fewn yr Adroddiad AoG) wedi cael ei ystyried

<u>Adroddiad Cwmpasu'r AoG</u>

3.9.1 Roedd cam cychwynnol proses yr AoG yn golygu paratoi 'Adroddiad Cwmpasu' (SD89), a oedd yn adolygu amodau amgylcheddol ac economaidd-gymdeithasol sylfaenol perthnasol; gan adnabod materion cynaliadwyedd allweddol a oedd yn berthnasol i'r Adolygiad o'r CDLl. Rhoddwyd ystyriaeth ddyladwy hefyd i'r berthynas rhwng CDLIN Pen-y-bont ar Ogwr a chynlluniau a rhaglenni perthnasol eraill. Fe wnaeth y rhain oleuo'r Materion ac Ysgogwyr Allweddol o fewn y CDLIN.

3.9.2 Roedd yr Adroddiad Cwmpasu AoG hwn (SD89) hefyd yn diffinio Fframwaith AoG a methodoleg arfarnu arfaethedig i'w defnyddio wrth gynnal yr AoG mewn perthynas â'r Adolygiad o'r CDLl. Cynhaliwyd ymgynghoriad wedi'i dargedu ynghylch y Fframwaith AoG a methodoleg arfarnu yma gyda Chyrff Ymgynghori'r AAS a rhanddeiliaid eraill, gan fod yn sail i asesu effeithio sylweddol tebygol y CDLIN. Roedd yr asesiad yn broses ailadroddol ac yn cynnwys datblygu a mireinio opsiynau'r CDLIN trwy brofi cryfderau, gwendidau ac effeithiau amgylcheddol tebygol elfennau arfaethedig.

3.9.3 Roedd y pwyslais ar weithredu dull cyfannol o sicrhau llesiant gwell ar draws llawer o Amcanion yr AoG wedi'i fwriadu i sicrhau y cydymffurfir â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a sicrhau cysondeb â pholisi cenedlaethol.

Y Cam Cyn Adneuo

3.9.4 Fe wnaeth yr Adroddiad ar yr AoG Dogfennau Cyn Adneuo (Strategaeth a Ffefrir y CDLlN), 2019 (SD88), gynnal asesiad o bob elfen gyfansoddol o Strategaeth a Ffefrir y CDLlN, gan gynnwys y Weledigaeth, yr Amcanion Strategol, y tri Opsiwn ar gyfer Strategaeth Twf, y pedwar Opsiwn ar gyfer Strategaeth Ofodol a'r Blaenoriaethau Strategol. Cynhaliwyd yr asesiad yn gyntaf ar sail cyn lliniaru, ac yn dilyn hynny cafodd argymhellion ynghylch lliniaru a gwella eu hymgorffori yn Strategaeth a Ffefrir derfynol y CDLlN i ymdrin ag ansicrwydd a adnabuwyd a chryfhau ei pherfformiad o ran cynaliadwyedd. Gan ystyried yr argymhellion hyn ynghylch lliniaru a gwella, fe newidiodd rhai o ganfyddiadau'r asesiad a thybiwyd fod nifer fwy o'r elfennau o Strategaeth a Ffefrir y CDLLN yn debygol o arwain at effeithiau Cadarnhaol Mawr a sylweddol, heb i unrhyw effeithiau niweidiol sylweddol gael eu hystyried yn debygol. Felly fe wnaeth proses yr AoG oleuo'r gwaith i baratoi Strategaeth a Ffefrir y CDLlN a helpu i'w gwella yn uniongyrchol, fel a nodir yn Adran 5 o'r Adran ar yr AoG Dogfennau Cyn Adneuo (Strategaeth a Ffefrir y CDLlN), 2019 (SD88). Wedi hynny, datblygwyd nifer gyfyngedig o argymhellion pellach ynghylch lliniaru a gwella hefyd i oleuo gwaith i baratoi Cynllun Adneuo'r CDLlN newydd yn y dyfodol fel a amlinellir yn Adran 7 o'r Adroddiad ar Strategaeth a Ffefrir y CDLlN. Cafodd yr argymhellion hynny eu hystyried yn briodol ac fe wnaethant oleuo gwaith yn ddiweddarach i baratoi'r Cynllun Adneuo.

3.9.5 Fe wnaeth yr Adroddiad ar yr AoG Safleoedd Ymgeisiol (Strategaeth a Ffefrir y CDLlN) (SD87), 2019 gynnal asesiad aml-gam mewn perthynas â safleoedd newydd ymgeisiol eraill rhesymol a safleoedd treigl posibl yn y CDLl, yn unol â'r fethodoleg a nodir yn Adran 3 o'r Adroddiad hwnnw. Darparodd hyn asesiad gwrthrychol o'r effeithiau amgylcheddol tebygol a'r effeithiau tebygol ehangach o ran cynaliadwyedd a fyddai'n deillio o ddyrannu safleoedd ymgeisiol newydd arfaethedig a safleoedd treigl posibl o CDLl mabwysiedig Pen-y-bont ar Ogwr a oedd yn bodoli eisoes yn y CDLlN a oedd yn dod i'r amlwg. Cafodd asesiad yr AoG ei integreiddio ym mhroses ddethol yr Asesiad o Safleoedd Ymgeisiol, gan sicrhau bod yr holl safleoedd yn cael eu trin yn gyfartal fel 'dewisiadau eraill rhesymol' (ar yr amod nad oedd cyfyngiadau mawr), cyn penderfynu pa safleoedd ymgeisiol oedd fwyaf addas ar gyfer dyraniad posibl ar y Cam Adneuo.

Y Cam Adneuo

3.9.6 Mae AoG Llawn Cynllun Adneuo'r CDLIN, 2021 (SD90) yn cyflwyno canfyddiadau arfarniad a gynhaliwyd i adnabod, asesu a gwerthuso'r effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol a'r effeithiau sylweddol tebygol o ran cynaliadwyedd a fyddai'n deillio o'r holl gynigion o sylwedd a oedd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Adneuo. Mae hyn yn cynnwys y Fframwaith Strategol (Gweledigaeth, Amcanion Strategol, Strategaeth Twf a Gofodol) a'r elfennau Rhoi ar Waith a Chyflawni (Polisïau Strategol, Polisïau Thematig, Dyraniadau Safleoedd a Seilwaith). Wrth wneud hynny, mae'r holl elfennau neu gynigion o sylwedd, ynghyd ag unrhyw ddewisiadau eraill rhesymol a adnabuwyd, wedi cael lefel gymesur o asesiad yn erbyn 14 Amcan yr AoG a ddiffiniwyd yn Fframwaith AoG terfynol yr Adolygiad o CDLl Pen-y-bont ar Ogwr (Atodiad C).

3.9.7 Fel a nodir yn Adran 6 o AoG Llawn Cynllun Adneuo'r CDLIN, 2021 (SD90), fe wnaeth cyfres o argymhellion pellach ynghylch lliniaru a gwella trwy gydol y broses ailadroddol o ddatblygu ac asesu polisïau thematig. Diben hyn oedd estyn cwmpas polisi materion cynaliadwyedd allweddol, cael gwared ar ansicewydd a gwella eglurder geiriad polisïau. Cafodd yr argymhellion hyn eu hymgorffori yn y fersiwn derfynol o Gynllun Adneuo'r CDLIN, ac fe ddiweddarwyd yr AoG i adlewyrchu hyn.

3.9.8 Fel a nodir yn Atodiad G wrth [AoG Llawn Cynllun Adneuo'r CDLIN] [yr adroddiad uchod], agwedd arall ar broses asesu a dethol safleoedd integredig yr AoG oedd datblygu opsiynau lliniaru i ddarparu mecanweithiau i ymdrin ag effeithiau anffafriol sylweddol tebygol heb eu datrys a oedd yn deillio o safleoedd ymgeisiol eraill rhesymol. Roedd hyn yn allweddol pe bai safleoedd ymgeisiol o'r fath yn cael eu dethol yn ddiweddarach i'w cynnwys yn y CDLIN. Datblygwyd opsiynau lliniaru heb ragfarnu canlyniadau asesu a oedd yn dod i'r amlwg ar gyfer yr holl opsiynau eraill rhesymol a adnabuwyd a barn yr ACLl ynglŷn â pha safleoedd unigol ddylai gael eu dyrannu yn y Cynllun Adneuo.

3.9.9 Mae'r AoG yn ystyried bod holl argymhellion yr AoG a grynhoir yn Adran 6 o AoG Llawn Cynllun Adneuo'r CDLIN, 2021 (SD90), wedi cael sylw priodol, gyda darpariaethau ychwanegol bellach wedi'u hymgorffori yn y Cynllun Adneuo. Mae hyn wedi gwneud proses adrodd yr AoG yn fwy effeithlon ac wedi gwella perfformiad cynaliadwyedd y Cynllun Adneuo. Yn arbennig, rhagwelir y bydd fersiwn derfynol y Cynllun Adneuo'n creu ystod o effeithiau buddiol sylweddol tebygol ar yr amgylchedd ac mewn perthynas â materion cynaliadwyedd allweddol a adnabuwyd, heb i unrhyw effeithiau anffafriol sylweddol gweddillol gael eu hystyried yn debygol. Mae'r asesiad a gyflwynir yn Adran 7 ac Atodiadau D – G o AoG Llawn Cynllun Adneuo'r CDLIN, 2021 (SD90), wedi cael ei ddiweddaru i ystyried yr holl fesurau lliniaru cytunedig sydd bellach wedi'u hymgorffori yn y Cynllun Adneuo. O ganlyniad, nid oes unrhyw argymhellion ar gyfer newidiadau pellach wedi cael eu hadnabod yn dilyn ymgynghori ynghylch y Cynllun Adneuo.

Newidiadau Materion yn Codi

3.9.10 Mae'r ACLI wedi llunio Atodlen o NMCau (**MAC1**) yn bennaf o ganlyniad i Bwyntiau Gweithredu a gododd o Sesiynau Gwrandawiad yr Archwiliad a gynhaliwyd rhwng mis Chwefror a mis Mawrth 2023. Cynhyrchwyd Adendwm wrth yr AoG (**MAC 2**) i ystyried y NMCau i'r CDLl Adneuo, sgrinio'r holl newidiadau perthnasol, adnabod y rhai yr ystyrir y gallent fod yn berthnasol i'r rhwymedigaethau dan yr AoG/Rheoliadau AAS a phenderfynu a ydynt yn dwyn goblygiadau ar gyfer canfyddiadau AoG Llawn Cynllun Adneuo'r CDLlN, 2021 (SD90). Adnabu'r broses hon nad oedd yr un o'r NMCau yn teilyngu asesiad pellach ac nad oedd unrhyw oblygiadau ar gyfer canfyddiadau AoG Llawn Cynllun Adneuo'r CDLlN, 2021 (SD90).

## 3.10 Sut y mae pob barn a fynegwyd mewn perthynas â'r ymgyngoriadau ynghylch y Cynllun a'r Adroddiad Amgylcheddol (o fewn yr AoG) wedi cael eu cymryd i ystyriaeth;

Y Camau Cyn Adneuo

3.10.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad wedi'i dargedu gyda rhanddeiliaid (gan gynnwys Cyrff Ymgynghori'r AAS) ynghylch Adroddiad Cwmpasu'r AoG, gan gynnwys Penderfyniad Sgrinio'r AAS, 2018 (SD89) a'r Adroddiad Sgrinio ARhC Cychwynnol, 2018 (SD75b), rhwng 23 Gorffennaf a 27 Awst 2018. Fe ymatebodd y rhai a wnaeth sylwadau o fewn graddfeydd amser statudol ac roeddent yn cytuno, yn sgîl effeithiau sylweddol tebygol ar yr amgylchedd a fyddai'n deillio o roi'r CDLlN a oedd yn dod i'r amlwg ar waith, y dylid cynnal AAS llawn. Fel a nodir yn Nhabl 4.1 yn yr AoG Dogfennau Cyn Adneuo (Strategaeth a Ffefrir y CDLlN), 2019 (SD88), fe wnaeth Cyrff Ymgynghori'r AAS hefyd argymell nifer o fân addasiadau i Fframwaith arfaethedig yr AoG ar y pryd. Gwnaed mân argymhellion eraill ynghylch y dadansoddiad sylfaenol, yr adolygiad o bolisïau a materion cynaliadwyedd allweddol fel a nodir yn Adroddiad Cwmpasu'r AoG (SD89). Yn unol â gofynion o ran gwybodaeth a ragnodir yn y Rheoliadau AAS, mae'r materion hyn wedi cael sylw yn yr AoG y Dogfennau Cyn Adneuo (Strategaeth a Ffefrir y CDLlN), 2019 (SD88) ac fe'u cariwyd ymlaen i gamau diweddarach yr AoG.

3.10.2 Cynhaliwyd ymgynghoriad ynghylch y Strategaeth a Ffefrir, gan gynnwys yr AoG Dogfennau Cyn Adneuo (Strategaeth a Ffefrir y CDLlN), 2019 (SD88) a'r Adroddiad Cychwynnol ar yr AoG/AAS – Y Strategaeth a Ffefrir (AoG Safleoedd Ymgeisiol), 2019 (SD87) rhwng 30 Medi ac 8 Tachwedd 2019. Roedd sylwadau'n ymwneud yn bennaf â safleoedd penodol, gyda rhai ymatebwyr a wnaeth sylwadau'n cyfeirio at yr Asesiad o Safleoedd Ymgeisiol a'r AoG yn

gyfnewidiol. Er bod y ddwy broses yn perthyn i'w gilydd, asesiadau ar wahân ydynt yn y pen draw. Cynhaliwyd yr AoG safleoedd ymgeisiol a datblygiad opsiynau lliniaru heb ragfarnu canlyniadau asesu a oedd yn dod i'r amlwg ar gyfer yr holl opsiynau eraill rhesymol a adnabuwyd a'r Asesiad o Safleoedd Ymgeisiol. Roedd yr olaf o'r rhain yn penderfynu pa safleoedd unigol oedd â'r potensial i ategu'r Strategaeth a Ffefrir ar gyfer y CDLIN.

3.10.3 Adnabuwyd rhai anomaleddau sgorio safle-benodol gan ymatebwyr a wnaeth sylwadau, a oedd i'w priodoli i orgyffyrddiadau anosgoadwy rhwng haenau GIS ffiniau'r safleoedd a haenau cyfyngiadau amgylcheddol a oedd yn ffinio'n uniongyrchol â'r safleoedd. Felly fe gynhaliwyd adolygiad trylwyr o'r broses sgorio a, lle'r oedd yn angenrheidiol, cafodd ei diweddaru â llaw i gywiro achosion lle'r oedd haenau GIS gorgyffyrddol wedi arwain at allbynnau sgorio anghywir.

3.10.4 Fe wnaed sylwadau pellach hefyd ynghylch seilwaith gwyrdd, bioamrywiaeth a chreu lleoedd. Er nad ystyriwyd fod newidiadau sylweddol i Fframwaith yr AoG yn angenrheidiol, cafodd y tabl materion cynaliadwyedd allweddol a Fframwaith yr AoG eu hadolygu a'u mireinio cyn cynnal yr AoG y Cynllun Adneuo. Ceir crynodeb o sylwadau perthnasol a gafwyd ac ymateb yr ACLl ym mharagraffau 3.255 – 3.266 yn yr Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol (SD29).

Y Cam Adneuo

3.10.5 Cynhaliwyd ymgynghoriad ynghylch Cynllun Adneuo'r CDLIN ac AoG Llawn Cynllun Adneuo'r CDLIN, 2021 (SD90) rhwng 1 Mehefin a 27 Gorffennaf 2021. Roedd sylwadau'n ymwneud yn bennaf â chynaliadwyedd safleoedd penodol a/neu lefel a dosbarthiad y twf. Darparwyd eglurhad drwy'r Adroddiad Ymgynghori ar y Cynllun Adneuo (SD4) bod Cynllun Adneuo'r CDLIN wedi cael AoG i asesu effeithiau cynaliadwyedd ac amgylcheddol sylweddol tebygol yr holl elfennau o sylwedd o fewn y Cynllun (strategaeth, polisïau, dyraniadau safleoedd, a.y.b.) ac unrhyw ddewisiadau eraill rhesymol a nodwyd, gyda mesurau lliniaru priodol wedi'u hymgorffori, Codwyd mân ymholiadau eraill ynghylch prosesau sgorio ac amcanion penodol yn yr AoG, er bod asesiadau manwl o effeithiau tebygol rhoi polisïau unigol ar waith wedi'u darparu yn Atodiadau E ac F yn AoG Llawn Cynllun Adneuo'r CDLIN, 2021 (SD90). Nid ystyriwyd fod unrhyw sylwadau'n cyflwyno materion o sylwedd ar gyfer yr AoG. Cyfeirier yn benodol at y sylwadau canlynol a wnaed gan yr ymatebwyr â'r rhifau canlynol, ac ymatebion yr ACLl iddynt: 128 (o fewn Atodiad yr Adroddiad Ymgynghori ar y Cynllun Adneuo Cyfrol 15 (SD19)); 400 (o fewn Atodiad yr Adroddiad Ymgynghori ar y Cynllun Adneuo Cyfrol 16 (SD20)); a 34, 141 a 142 (o fewn Atodiad yr Adroddiad Ymgynghori ar y Cynllun Adneuo Cyfrol 17 (SD21)).

Newidiadau Materion yn Codi

3.10.6 Cynhaliwyd ymgynghoriad ynghylch yr Atodlen o NMCau (MAC 1) a'r AoG: Adendwm NMCau, 2023 (MAC 2) rhwng 31 Gorffennaf ac 11 Medi 2023. Codwyd ymholiadau a oedd yn gofyn a oedd dad-ddyrannu Parc Afon Ewenni, Pen-y-bont ar Ogwr fel dyraniad tai (COM1(1) gynt) ac ail-ddynodi Ewenny Road, Maesteg (COM1(5) erbyn hyn) yn ddyraniad tai yn golygu bod angen cynnal asesiad AoG pellach. Fodd bynnag, nid ystyriwyd fod y newid hwn yn effeithio ar ganlyniad yr AoG, fel y'i sgriniwyd o fewn yr AoG fel a nodir yn: Adendwm NMCau, 2023 (MAC 2). Codwyd pryderon eraill bod newidiadau yn y capasiti anheddau ar Dir i'r De o Ben-y-bont ar Ogwr (Fferm yr Ynys) (SP2(2)) a Chraig Y Parcau (COM1 (1) erbyn hyn) yn rhai heb gyfiawnhad. Fodd bynnag, nodwyd y newidiadau hyn yn Natganiad Gwrandawiad y Cyngor (M9(1)) ac fe'u heglurwyd yn Sesiwn Wrandawiad 9. Fe wnaeth yr ARhC: Adendwm NMCau (MAC3) sgrinio'r newid hwn hefyd a phenderfynu nad yw'n addasu casgliadau ARhC Cynllun Adneuo'r CDLIN, 2021 (SD75), fel a nodir yn Nhabl 1 o fewn yr Adroddiad ar yr Ymgynghoriad ynghylch NMCau (**MAC 4**).

**3.11 Sut y mae canlyniadau unrhyw ymgynghoriad trawsffiniol wedi cael eu cymryd i ystyriaeth;**

3.11.1 Fe ymgynghorwyd ag awdurdodau cyfagos trwy gydol proses yr AoG ac ar bob cam o'r gwaith i baratoi'r CDLIN. Mae'r CDLIN wedi cael ei baratoi yn dilyn deialog agos gyda'r holl awdurdodau cyfagos (Cyngor Bro Morgannwg a Chynghorau Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Rhondda Cynon Taf), yn ogystal â sefydliadau hanfodol eraill. Cynhaliwyd y ddeialog hon ar sail unigol a phynciol, ond hefyd trwy Grŵp Cynllunio Strategol De Ddwyrain Cymru a fforymau pynciol eraill. Mae awdurdodau cyfagos wedi cydweithio trwy gydol gwahanol gamau'r gwaith i baratoi'r CDLIN ac ni chodwyd unrhyw wrthwynebiadau na phryderon ynghylch y CDLIN a'i sail dystiolaeth ategol. Llofnodwyd Datganiadau o Dir Cyffredin gyda Bro Morgannwg (SD239) a Chastell-nedd Port Talbot (SD102) i'r perwyl hwn.

3.11.2 Er na all y CDLIN ond dylanwadu ar strategaeth gynllunio neu ddatblygu o fewn ffiniau Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, gall fod effeithiau trawsffiniol o ganlyniad i'w roi ar waith. Gan ystyried hyn, defnyddiodd yr ARhC glustogfa (parth dylanwad) o 15km o amgylch Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, i adnabod y Safleoedd Ewropeaidd hynny (fel yr oeddent wedi'u dosbarthu ar y pryd) y gellid tybio y byddai'r adolygiad o'r CDLI yn effeithio arnynt. Adnabuwyd deuddeg safle (11 Ardal Cadwraeth Arbennig (**ACA**) ac 1 safle gwlypdir o bwysigrwydd rhyngwladol (**Ramsar**)) i'w dwyn ymlaen ar gyfer Cam 1af yr ARhC. Mae tri o'r safleoedd hyn o fewn ardal Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, mae saith o fewn 15 km i'r ffin ac mae dau 15 km o'r ffin. Yr un safleoedd yw'r rhain

â'r rhai a ystyriwyd yn flaenorol o fewn yr ARhC a gynhaliwyd mewn perthynas â'r CDLl mabwysiedig cyntaf (2006-2021). Fe wnaeth ARhC Cynllun Adneuo'r CDLlN, 2021 (SD75) ystyried yr wybodaeth a oedd ar gael ar y cam hwnnw yn ystod y gwaith i baratoi'r cynllun, y lefel o fanylder a oedd yn briodol ar gyfer polisïau a chynigion y CDLlN a'r mesurau a oedd wedi'u hymgorffori yn y CDLlN i warchod Safleoedd Ewropeaidd (sydd bellach yn rhan o Rwydwaith Safleoedd Cenedlaethol), a darparu gwelliannau mewn ansawdd aer. Daeth i'r casgliad na fyddai'r CDLlN yn achosi effaith sylweddol debygol ar unrhyw un o'r deuddeg Safle a adnabuwyd, boed ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill.

## 3.12 Y rhesymau dros ddewis y Cynllun fel y'i mabwysiadwyd, yng ngoleuni'r dewisiadau eraill rhesymol yr ymdriniwyd â hwy

3.12.1 Cafodd tri opsiwn twf eu dethol ar y cam Cyn Adneuo ar y sail eu bod yn cynrychioli senarios a adnabuwyd, yn rhesymol mewn perthynas â'r sail dystiolaeth ac yn ddigon amrywiol i alluogi gwahanol ymatebion cynllunio strategol. Gan gyfeirio at Fframwaith AoG yr Adolygiad o CDLl Pen-y-bont ar Ogwr (Atodiad C wrth SD90), cafodd yr Opsiwn a Ffefrir (Twf Canolig) ei ddethol ar y cam Cyn Adneuo ac mae bellach yn tanategu'r strategaeth twf a gofodol a nodir ym Mholisi Strategol 1 y CDLlN. Ystyrir ei fod yn debygol o berfformio orau trwy ategu twf economaidd, gan ei gwneud yn bosibl cyflawni seilwaith allweddol, gan sicrhau tai fforddiadwy a gwella cysylltedd heb arwain at orddatblygu.

3.12.2 Datblygwyd pedwar opsiwn gofodol ar gyfer derbyn y lefel darged o dwf tai a chyflogaeth o fewn y Fwrdeistref Sirol i oleuo'r gwaith i baratoi Strategaeth a Ffefrir y CDLlN. Fel a nodwyd yn flaenorol yn Atodiad D wrth yr AoG Dogfennau Cyn Adneuo (Strategaeth a Ffefrir y CDLlN), 2019 (SD88), cafodd yr opsiynau gofodol eu dethol yn seiliedig ar Asesiad Aneddiadau Pen-y-bont ar Ogwr 2019 (a ddiwygiwyd yn 2021) (SD 91), a'r angen am 'dwf da' sy'n gysylltiedig â chyfres o flaenoriaethau gofodol. Dangosodd hyn fod y pedwar opsiwn gofodol a adnabuwyd wedi'u ffurfio'n briodol mewn perthynas â gofynion twf a adnabuwyd a materion cynaliadwyedd allweddol. Felly, ar y Cam Cyn Adneuo, ystyriwyd fod opsiynau gofodol 1, 2 a 3 yn ddewisiadau eraill rhesymol yn lle'r Opsiwn a Ffefrir, opsiwn 4, a ddatblygwyd yn ddiweddarach yn strategaeth twf a gofodol newydd a ddisgrifiwyd trwy Bolisi Strategol 1 o fewn y Cynllun Adneuo. Nid oedd unrhyw opsiynau gofodol eraill rhesymol yn gallu cael eu hadnabod gan y byddai opsiynau posibl eraill naill ai'n methu â derbyn y lefel darged o dwf neu'n methu ag ymdrin â materion cynaliadwyedd allweddol a adnabuwyd.

3.12.3 Fe wnaeth proses yr AoG oleuo'r dewisiadau ar gyfer y strategaeth twf a gofodol trwy ddarparu mecanwaith y gellid ei defnyddio i ragfynegi a chymharu effeithiau cadarnhaol a negyddol pob opsiwn. Yn unol â'r gofynion craidd ar gyfer AAS,

cafodd yr holl opsiynau twf a gofodol a adnabuwyd ar y cam Cyn Adneuo eu hasesu ar lefel gyfartal a chymesur. Gan bod paramedrau allweddol y strategaeth twf a gofodol (sydd bellach yn cael ei disgrifio ym Mholisi Strategol 1 yn y CDLIN) yn deillio o'r opsiynau gofodol a thwf a ffefrir a ddetholwyd ar y cam Cyn Adneuo, roedd opsiynau eraill rhesymol yn lle'r strategaeth arfaethedig eisoes wedi cael eu hasesu ac nid oedd angen eu hystyried ymhellach ar y Cam Adneuo. Felly mae Adran 7.2 ac Atodiad D yn Fframwaith AoG yr Adolygiad o CDLl Pen-y-bont ar Ogwr SD90 yn nodi asesiad cymesur o'r strategaeth twf a gofodol a ddisgrifir trwy Bolisi Strategol 1 – Strategaeth Adfywio a Thwf Cynaliadwy'r CDLIN.

3.12.4 Cynhaliwyd adolygiad lefel uchel a seiliedig ar System Gwybodaeth Ddaearyddol o gyfyngiadau cynaliadwyedd a oedd yn effeithio ar yr Ardaloedd Twf Cynaliadwy ac Adfywio arfaethedig ei gynnal hefyd i ategu datblygiad Cynllun Adneuo'r CDLIN. Diben y dadansoddiad hwn oedd goleuo darluniad yr Ardaloedd Twf ac Adfywio, dangos bod yr elfennau hyn eu hunain yn opsiynau eraill rhesymol (yn hytrach na pheidio â bod yn rhesymol), ar gyfer eu cynnwys yng Nghynllun Adneuo'r CDLIN, a rhoi cymorth i greu egwyddorion datblygu uwchgynllun ar gyfer dyraniadau safleoedd strategol ym mhob Ardal Dwf (cyfeirier at Atodiad D wrth SD90). Cafodd AoG manwl o safleoedd ymgeisiol unigol, gan gynnwys y safleoedd strategol y cynigir bellach eu bod yn cael eu dyrannu trwy SP2 a PLA1 – PLA5, ei gynnal ar wahân ac fe'i darperir yn Atodiad G wrth Fframwaith AoG yr Adolygiad o CDLl Pen-y-bont ar Ogwr SD90 – AoG Safleoedd Ymgeisiol a Seilwaith.

3.12.5 At y cyfan, daeth Adroddiad yr Arolygydd i'r casgliad canlynol:

"*mae'r AoG/AAS o ddyraniadau'r CDLIN wedi ystyried dewisiadau eraill rhesymol, o ran opsiynau graddfa, lleoli a dylunio ac mae'r rhesymau dros ddewis dyraniadau safleoedd, a gwrthod rhai eraill, yn eglur a rhesymegol*" (para 2.6); ac

"*Rwyf wedi fy argyhoeddi bod y broses AoG/AAS a gynhaliwyd, gan gynnwys ystyried dewisiadau eraill rhesymol, yn gadarn, yn ateb gofynion gweithdrefnol a chyfreithiol, ac yn gyson â gofynion PCC*" (para 2.7).

## 3.13 Y mesurau a fydd yn cael eu cymryd i fonitro effeithiau amgylcheddol sylweddol rhoi'r Cynllun ar waith.

3.13.1 Mae Rheoliad 37 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor baratoi Adroddiad Monitro Blynyddol (**AMB**). Mae hyn yn ofynnol er mwyn

monitro eitemau penodol, yn ogystal ag adnabod ble a pham nad yw polisïau'r Cynllun yn cael eu rhoi ar waith fel a fwriadwyd.

3.13.2 Mae Rheoliad 17 yn Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i'r ACLI fonitro effeithiau amgylcheddol sylweddol y Cynllun at ddiben adnabod effeithiau anffafriol nas rhagwelwyd ar adeg gynnar a gallu cymryd camau cywirol priodol. Mae monitro'r Cynllun a'i effeithiau amgylcheddol felly'n ofyniad statudol a fydd yn cael ei ateb trwy broses yr AMB.

3.13.3 Nodir Fframwaith Monitro yn Atodiad 4 wrth y CDLIN mabwysiedig (2018-33). Mae'r dangosyddion monitro wedi'u categoreiddio yn ôl Amcanion y CDLIN ac yn croesgyfeirio at Amcanion perthnasol yn yr AoG. Bydd y fframwaith hwn yn darparu ar gyfer asesiad parhaus i ganfod a yw amcanion sylfaenol y CDLIN yn dal i fod yn ddilys ynteu a yw'r amgylchiadau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol neu ddiwylliannol sydd ohoni wedi newid yn sylweddol ers paratoi'r Cynllun. Yn y bôn, bydd y fframwaith monitro'n darparu ar gyfer asesiad o'r modd y rhoddir strategaeth, polisïau a chynigion y CDLIN ar waith.

3.13.4 Fel a amlinellwyd yn AoG Llawn Cynllun Adneuo'r CDLIN, 2021 (SD90), er eu bod yn ymwneud â phynciau unigol, mae pedwar Amcan Strategol ac Amcanion ategol y CDLIN yn cwmpasu Amcanion yr AoG yn gryf. Gan hynny, ceir synergeddau eglur rhwng Proses Fonitro'r AoG/AAS a Phroses Fonitro'r CDLIN. Mae'r rhain wedi cael eu cynyddu i'r eithaf trwy ystyriaeth ddyladwy i'r 14 o Amcanion yn yr AoG/AAS wrth ddatblygu Fframwaith Monitro'r CDLIN.

3.13.5 Felly, yn ogystal â monitro'r modd y cyflawnir y Cynllun a'i effeithiolrwydd, mae'r Fframwaith Monitro'n benodol yn cynnwys mecanweithiau i fonitro effeithiau sylweddol tebygol y CDLIN ar yr amgylchedd, fel a ragfynegwyd trwy broses yr AoG. Mae hyn yn cynnwys mecanweithiau i fonitro a yw'r egwyddorion datblygu uwchgynlluniau (Polisïau PLA1 – 5) a'r mesurau lliniaru ar lefel polisi yn yr AoG (SP1 ac Atodlenni yn Atodiad 6) yn cael eu rhoi ar waith yn briodol wedi hynny.

3.13.6 Mae'r Fframwaith Monitro hefyd yn cynnwys mecanweithiau i asesu a yw polisïau allweddol sy'n hanfodol i gyflawni'r Cynllun yn cael eu rhoi ar waith fel a fwriadwyd a heb unrhyw ganlyniadau anffafriol nas rhagwelwyd. Yn benodol, bydd 14 Amcan yr AoG yn cael eu hasesu yn erbyn y dangosyddion a adnabuwyd fel y rhai sydd fwyaf perthnasol fel a nodir yn Atodiad 6 wrth y CDLIN mabwysiedig.

3.13.7 Bydd dull integredig o fonitro'r modd y rhoddir y Cynllun ar waith a'i effeithiau amgylcheddol sylweddol yn cael ei gynnal yn flynyddol trwy broses yr AMB. Bydd yr AMB cyntaf ar gyfer y CDLIN yn cael ei gyhoeddi a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2025.